



## **Adroddiad Cyfarfod**

**14:06:23**

**Taith ar Y Fennai**

Cafwyd cyfarfod pentymor arbennig iawn gyda mordaith ar y Fennai o Gaernarfon tuag at Fangor. 'Roedd yn noson gynnes o haf a'r Fennai yn llonydd yn arddangos ei phrydferthwch ar ei gorau. Mae gweld y tir o'r môr yn brofiad difyr, gan sylweddoli ar gymaint o goed sydd ar hyd y lan, dotio at wynder tai'r Felinheli, y Plasdai a'r tai crand ym Mangor a Phorthaethwy, a chael cwmni un neu ddau Bildowcar a oedd wedi gorffen eu swper ac yn torheulo yn yr haul.

Cael mynd o dan y ddwy bont yn goron ar y daith – y beiranyddiaeth o'u hadeliadu yn gampweithiau. Braff oedd cael croesawu cymaint o gyfeillion i ymuno a'r daith ac i fwynhau eu picnic – cyn i ni forio yn hamddenol yn ôl i'r Cei yng Nghaernarfon. Rydym yn freintiedig iawn o gael byw mewn lle mor braff.

Diolchodd Mair Price i'r pwyllgor am eu gwaith i gynnal y gweithgareddau am y flwyddyn, gan ddymuno yn dda i Jennifer Roberts a'i phwyllgor hithau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Diolch i Jen am y lluniau yma a thrwy gydol y flwyddyn.